



## Cerdyn Cwestiwn y 3 Phen (3C a 3S) a Dîs

### Sut i chwarae'r gêm

- I chwarae gêm y 3 Phen, gludwch y templed dîs ar ddarn o gerdyn, ei dorri allan a'i fffurfio'n giwb.
- Rholiwch y dîs a herio'ch ffrindiau gyda chwestiwn o gategori'r tri phen C neu'r tri phen S.
- Os nad ydych am brintio dim byd, gallwch ddefnyddio dîs cyffredin a neilltuo rhif i bob un o'r tri phen C a'r tri phen S, e.e. un = lliw, dau = lleoliad ac yn y blaen.
- Os nad oes dîs gyda chi, gallwch greu 'twba lwcus/lucky dip' drwy ysgrifennu pob un o dri phen C a thri phen S ar chwe darn o bapur fel bod gennych 36 darn a'u gosod mewn het i bobl dynnu allan ohoni.
- Neu, gallech hefyd brinto allan a thorri'r cerdyn cwestiwn a rhoi'r cwestiynau mewn het i greu 'twba lwcus/lucky dip' o gwestiynau.

### DEFNYDDIWCH Y CWESTIYNAU HYN I DRAFOD Y FFILMIAU YR YDYCH YN EU GWYLIO YN Y CLWB FFILMIAU



#### LLIWIAU

- Pa liwiau allwch chi eu gweld?
- Sut mae'r lliwiau'n gwneud i chi deimlo?
- Pryd mae'r lliwiau'n newid a pham?
- Beth mae'r lliwiau'n ei ddweud wrthon ni am yr adeg o'r dydd y digwyddodd y stori?
- Pam ydych chi'n credu bod rhai lliwiau yn cael eu defnyddio?
- Pa liwiau fydech chi wedi'u dewis?
- Ydy'r lliwiau yn newid pan fydd y stori mewn lleoliad gwahanol??
- Ydych chi'n cysylltu unrhyw liw ag unrhyw gymeriad?
- Pa mor bwysig ydy lliwiau yn y ffilm?
- Sut ffilm fyddai hi mewn du a gwyn neu mewn un lliw?
- Pa naws ydych chi'n credu mae lliwiau yn ei greu?



#### STORI

- Beth sy'n digwydd ar ddechrau, ar ganol ac ar diwedd y stori?
- Beth ydy'r pethau (digwyddiaau) pwysicaf yn y stori?
- Sut byddai'r stori'n newid petai trefn pethau yn wahanol??
- Sut ydyn ni'n gwybod ble mae'r stori'n digwydd?
- Pwy neu beth ydy testun y stori?
- Sut ydyn ni'n gwybod?
- Beth ydy hyd y stori mewn amser 'real'?
- Beth ydych chi'n credu oedd wedi digwydd cyn i'r stori ddechrau?
- Beth allai ddigwydd nesaf, ar ôl i'r stori orffen?
- Sut mae'r stori yn eich atgoffa am straeon eraill?
- Sut hoffech chi i'r stori fynd yn ei blaen?



## DEFNYDDIWCH Y CWESTIYNAU HYN I DRAFOD Y FFILMIAU YR YDYCH YN EU GWYLIO YN Y CLWB FFILMIAU



### CYMERIAD

- Oes prif gymeriad?
- Oes mwy nag un prif gymeriad?
- Ydy'r stori am y cymeriad hwn neu am rywun arall?
- Pwy sy'n adrodd yn stori?
- Disgrifiwch bryd a gwedd y prif gymeriadau?
- Sut gallai eu golwg gyfleu eu cymeriad i ni?
- Sut maen nhw'n siarad a beth maen nhw'n ei ddweud
- Sut maen nhw'n ymddwyn?
- Sut maen nhw'n ymddwyn tuag at gymeriadau eraill?
- Oes gan unrhyw un o'r cymeriadau unrhyw gerddoriaeth neu seiniau?
- Pa gymeriad sy'n denu eich diddordeb fwyaf?
- A hoffech chi weld unrhywun arall yn y stori?
- Sut byddai'r stori yn wahanol gyda chymeriad arall neu heb un o'r cymeriadau?



### LLEOLIAD

- Ble mae'r stori'n digwydd?
- Pam cafodd y stori ei lleoli mewn man arbennig?
- Pryd a sut mae'r lleoliad yn newid?
- Sut mae'r lleoliad yn effeithio ar y cymeriadau a'r modd y maen nhw'n ymddwyn?
- Pan gychwynnodd y stori ble oeddech chi'n credu ein bod ni?
- Sut allwch chi ddweud ble roedd y stori'n digwydd?
- Allai'r stori fod wedi digwydd mewn lle gwahanol?
- Sut yn eich barn chi fyddai'r stori wedi newid petai wedi digwydd mewn man neu leoliad gwahanol?
- Allwch chi ddweud pryd mae'r stori'n digwydd?
- Pa gliwiau sydd yna i gyfleu i ni a ydy'r stori yn digwydd yn y presennol neu'r gorffennol?



### CAMERA

- Pa saethiadau/siotiau sydd wedi cael eu defnyddio?
- Allwch chi eu henwi?
- Pryd ydyn ni'n gweld siot hirbell/saethiad hir neu siot agos?
- Ar gyfer beth mae'r gwahanol siotiau'n cael eu defnyddio?
- Drwy lygaid pwy ydyn ni'n gweld y stori?
- Pryd ydyn ni'n gweld safbwynt y gwahanol gymeriadau?
- Pryd mae'r camera'n symud a phryd mae'n llonydd?
- Sut mae'r camera'n helpu i ddweud y stori?
- Beth mae'r saethiadau cyntaf yn ei gyfleu i ni am y stori, y lleoliad ayb?
- Pam bod siotiau arbennig yn dilyn ei gilydd e.e. siot agos yn dilyn siot hirbell?
- Sut gallwch chi ddweud beth mae'r prif gymeriadau yn ei feddwl neu yn ei deimlo drwy'r hyn y mae'r camera yn ei wneud?
- Pa mor gyflym mae'r siotiau'n newid? Ydy hyn yn newid yng ngwahanol rannau or stori?



### SEINIAU

- Sawl sain gwahanol ydych chi'n ei glywed? Beth ydyn nhw?
- Oes cerddoriaeth yn y ffilm?
- Sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo?
- Pryd ydych chi'n clywed y gerddoriaeth neu'r seiniau'n newid?
- Beth sy'n digwydd ar y sgrîn pan fydd y seiniau neu'r gerddoriaeth yn newid?
- Os gwrandewch chi ar y seiniau heb y lluniau, a allwch chi ddweud beth sy'n digwydd ar y sgrîn?
- Oes unrhyw eiliadau o dawelwch?
- Ydy'r cymeriadau'n siarad? Sut maen nhw'n swnio?
- Petaech chi'n ychwanegu'ch lleisio eich hunan, pwy fyddai'n siarad a beth fydden nhw'n ei ddweud?
- Allwch chi glywed unrhyw effeithiau sain?
- Ydych chi'n credu bod rhai seiniau yn uwch na fydden nhw go wir? Beth ydyn nhw? Pam ydych chi'n credu eu bod yn uwch yn y ffilm?



GWEITHGAREDD:  
GWYLIO

CLYBIAU  
INTO  
FILM

